**Datganiad o Fwriad Cymhwysedd ECO 4 Flex Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Enw'r Awdurdod Lleol: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**Dyddiad Cyhoeddi Cyntaf: 21 Tachwedd 2023 Fersiwn 1.0**

**Dyddiad Cyhoeddi Presennol: 29 Ionawr 20258 Fersiwn 2.0**

**Cyhoeddi ar y wefan: 29.1.25**

Mae'r datganiad yma'n nodi meini prawf cymhwysedd hyblyg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y Cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO 4) o ddyddiad y Datganiad o Fwriad yma tan fis Mawrth 2026, oni bai bod fersiynau newydd yn cael eu cyhoeddi, a fydd yn disodli'r fersiwn yma.

Bydd cynllun ECO4 yn canolbwyntio ar gefnogi aelwydydd incwm bach ac aelwydydd sy'n agored i niwed. Bydd y cynllun yn gwella'r cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni sy'n bodloni gofyniad eiddo domestig preifat y Canllawiau (h.y. pobl sy'n berchen ar y tŷ maen nhw'n byw ynddo, cartrefi rhent preifat a chartrefi rhent cymdeithasol lle caiff ei osod ar gyfraddau'r farchnad neu'n uwch), gan helpu i fodloni ymrwymiadau tlodi tanwydd sero net y Llywodraeth, drwy osod mesurau effeithlonrwydd ynni.

Cyfeirir at y dull hyblyg ar gyfer Awdurdodau Lleol (ALl) o nodi aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd ac aelwydydd sy'n agored i niwed a allai elwa ar fesurau gwresogi ac arbed ynni megis "ECO4 Flex".

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn croesawu cyflwyno llwybrau cymhwysedd ECO4 Flex fel un dull o helpu'r Cyngor i gyflawni ei gynlluniau i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd neu sy'n agored i'r oerfel.

Bydd datganiadau ond yn cael eu darparu i Osodwyr neu Asiantau sydd wedi'u cofrestru ar y Rhestr Darparwyr Cymeradwy (APL) a'r rhai sydd wedi'u hachredu i wneud gwaith ECO4. Bydd deiliaid tai yn dewis eu gosodwyr eu hunain gan ddefnyddio'r Rhestr o Ddarparwyr Cymeradwy a bydd yr holl berthnasau cytundebol rhwng deiliad y tŷ a'u dewis o osodwr yn uniongyrchol. Mae modd cael rhagor o wybodaeth am y Cynllun ECO 4 Flex a'r Rhestr Darparwyr Cymeradwy yma: [Cyllid ECO 4 Flex | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf].

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi'r Datganiad o Fwriad yma ar 29 Ionawr 2025 i gadarnhau y bydd pob un o'r aelwydydd a ddatganwyd yn cadw at o leiaf un o'r llwybrau sydd ar gael a amlinellir isod:

## Llwybr 1: Incwm

Aelwydydd sy'n byw mewn cartrefi y maen nhw'n berchen arno gyda sgôr Perfformiad Ynni (band SAP) D i G neu gartrefi sector rhentu preifat gyda sgôr Perfformiad Ynni (band SAP) E i G

**A**

gydag incwm blynyddol gros o lai na £31,000.  Mae hyn yn cynnwys pob ffynhonnell incwm gan bob aelod o’r cartref gan gynnwys budd-daliadau nad ydyn nhw'n seiliedig ar brawf modd a budd-daliadau prawf modd. Mae'r terfyn yma'n berthnasol waeth beth fo'r eiddo, maint, cyfansoddiad neu ranbarth.

## Llwybr 2 : Procsis

Aelwydydd sy'n byw mewn cartrefi y maen nhw’n berchen arno gyda sgôr Perfformiad Ynni (band SAP) E i G sy’n bodloni cyfuniad o ddau o’r procsis canlynol:

| |
|---|
| **Procsi 1)** Cartrefi yn narpariaeth Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cymru 1-3 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019.[1] |
| **Procsi 2)** Deiliaid cartrefi sy'n derbyn ad-daliad Treth y Cyngor (ad-daliadau'n seiliedig ar incwm isel yn unig, ddim yn cynnwys gostyngiad person sengl). |
| **Procsi 3)** Deiliaid cartrefi sy'n agored i fyw mewn cartref oer fel sydd wedi'i nodi yng Nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Dim ond un o'r rhestr y mae modd ei ddefnyddio, ddim yn cynnwys y procsi 'incwm isel'. |
| **Procsi 4)** Deiliad cartref sy'n derbyn prydau ysgol am ddim o ganlyniad i incwm isel. |
| **Procsi 5) Ddim ar gael ar hyn o bryd** |
| **Procsi 6)** Cartref sydd wedi'i atgyfeirio at yr Awdurdod Lleol gan eu darparwr ynni neu Gyngor ar Bopeth, i gael cymorth gan ei fod wedi'i nodi'n berson sy'n ei chael hi'n anodd talu ei filiau nwy a thrydan. |

1 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diweddariad llawn i’r mynegai gyda graddfeydd): 2019 2019 | LLYW.CYMRU

**** Nodwch, does dim modd defnyddio procsis 1 a 3 gyda'i gilydd. Dydy procsi 5 ddim ar gael ar hyn o bryd***

## Llwybr 3: Atgyfeiriad gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)

Aelwydydd sy'n byw mewn cartrefi y maen nhw’n berchen arno gyda sgôr Perfformiad Ynni (band SAP) D i G neu gartrefi sector rhentu preifat gyda sgôr Perfformiad Ynni (band SAP) E i G

**A**

lle mae aelod yn dioddef cyflwr iechyd difrifol a/neu hirdymor y mae byw mewn cartref oer yn cael effaith niweidiol arno.

Gall y cyflyrau iechyd yma fod yn rhai cardiofasgwlaidd, resbiradol, gwrthimiwnedd, neu symudedd cyfyngedig. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor yn cydnabod yr effaith negyddol ar aelwydydd â chyflyrau iechyd hirdymor sy'n byw mewn cartrefi llai ynni-effeithlon a'r effaith ar iechyd a lles.

Rhaid i Feddyg Teulu, Meddyg neu Ymarferydd Iechyd o'r Bwrdd Iechyd Lleol/GIG ddangos tystiolaeth o bob cyflwr iechyd.

## Llwybr 4: Targedu Pwrpasol

**Ddim ar gael ar hyn o bryd**

**Cadarnhad o'r datganiad a'r gwiriad tystiolaeth**

Dylai pob cartref a allai fod yn gymwys wneud cais yn uniongyrchol i un o'r Gosodwyr ar y Rhestr Darparwyr Cymeradwy. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn *Cyllid ECO 4 Flex | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.*

Dyw Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddim yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb na rhwymedigaethau cytundebol gyda Gosodwyr/Cyflenwyr ac mae'r ymgeisydd yn ymrwymo i'w gytundeb cytundebol ei hun gyda'r Gosodwr o'u dewis.

Mae gwybodaeth am y broses ymgeisio ar gael ar wefan y Cyngor *Cyllid ECO 4 Flex | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.* Bydd angen i bob gosodwr sy'n gweithio o dan y cytundeb yma ddarparu ffurflen gais wedi'i chwblhau a'r holl dystiolaeth sydd ei hangen i gadarnhau cymhwysedd cais (cymhwysedd eiddo a phreswylwyr).

Declarations will only be provided to Installers that are registered on the Approved Providers List and those that have the relevant Accreditations for providing measures under the ECO scheme. Further information on how installers can apply to be registered onto the list is available on the Council's webpage *Cyllid ECO 4 Flex | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.*

Bydd datganiadau yn ddilys am 12 mis o ddyddiad eu llofnodi.

Y Swyddog sy'n gyfrifol am wirio a dilysu datganiadau a thystiolaeth gysylltiedig a gyflwynwyd ar ran yr Awdurdod Lleol:

**Enw: Swyddog Ynni Tai'r Garfan Gwresogi ac Arbed, Carfan Strategaeth Dai**

**Ffôn: 01443 281136**

**Ebost:gwresogiacarbed@rctcbc.gov.uk**

Bydd yr wybodaeth cymhwysedd yn cael ei storio'n ddiogel yn unol â pholisi diogelu data'r Cyngor, Cod Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a chanllawiau'r Adran dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net (DESNZ).

Y cyflenwr ynni neu ei asiant/contractwr ac nid y Cyngor fydd yn penderfynu a yw aelwyd yn derbyn mesur o dan gymhwyster hyblyg neu ffrydiau ariannu ECO eraill. Rôl y Cyngor yw gosod meini prawf cymhwyster, asesu ceisiadau a chyhoeddi Datganiadau ar gyfer aelwydydd cymwys. Fydd cyhoeddi Datganiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf DDIM yn gwarantu gosod mesur, y cyflenwr sy'n gwneud y penderfyniad terfynol.

**Cyfraniadau Cwsmer**

Does gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ddim dylanwad dros lefelau'r cyllid sydd ar gael o fewn y Cynllun ECO Flex. Er y disgwylir y bydd rhai mesurau trwy ECO Flex yn denu lefelau o gyllid a fydd yn gwneud cost y gwaith yn rhad ac am ddim i'r cwsmer, efallai mai dim ond yn rhannol y bydd eraill yn cael eu hariannu gan grant. Bydd y cwsmer yn cael gwybod am unrhyw ddiffyg mewn costau yn dilyn arolwg trwy'r Gosodwr o'u dewis a'r cwsmer yn unig fydd yn dewis bwrw ymlaen neu wrthod.

**Ffioedd Gweinyddol/Cyfeirio**

Cyfradd gyfredol y farchnad a godir yw **£300** fesul cais (ynghyd â TAW). Mae'n bwysig nodi bod ffioedd i'w talu gan y Gosodwr/Asiant/Cwmni Ynni ac ni ddylid eu trosglwyddo i ddeiliad y tŷ/cwsmer o dan unrhyw amgylchiadau.


**Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a Hysbysiad Preifatrwydd**

Er mwyn cyhoeddi Datganiadau a gweinyddu'r cynllun i alluogi cartrefi i gael mynediad at gyllid ECO 4 Flex, bydd y Cyngor yn prosesu ac yn rhannu data personol. Bydd yr holl ddata'n cael ei reoli a'i storio yn unol â gofynion Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae modd dod o hyd i gopi o Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor sy'n nodi sut y caiff data ei reoli, yma Hysbysiad Preifatrwydd Gwresogi ac Arbed - Gwasanaeth yr Hwb Atgyfeirio | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk)

**Llofnod y Prif Swyddog Gweithredol neu berson cyfrifol penodedig**

Bydd y Cyngor yn gweinyddu'r cynllun yn unol â Gorchymyn ECO4 a bydd yn nodi aelwydydd cymwys drwy broses ymgeisio Ofgem. Bydd Prif Weithredwr y Cyngor yn goruchwylio'r broses o nodi aelwydydd cymwys o dan ECO4 Flex.

Enw: Paul Mee



Teitl y swydd: Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (person cyfrifol penodedig)
Dyddiad y llofnod: 27.01.25

Am unrhyw ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â'r Datganiad o Fwriad yma, e-bostiwch gwresogiacarbed@rctcbc.gov.uk

Mae rhagor o wybodaeth am ECO 4 Flex ar gael yn:

www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/Housing/HousingGrants/HeatandSave/Eco4FlexFunding.aspx